**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 30 Mawrth 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | L J Tyler-Lloyd |
| L V Walton | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Y V Jardine | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Sherwood a P B Smith

---

## 26 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 27 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

## 28 Diweddariad ar y Cynllun Adfer.

Darparodd y Dirprwy Brif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Adfer a oedd yn cynnwys:-

- Cymeradwywyd yr adroddiad 'Abertawe'n Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd' ym mis Hydref 2020
- Dal i fod yn y modd ymateb i COVID-19 ar hyn o bryd
- Ailddechrau, newid ffocws ac ail-lunio

- Effaith Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Adolygiad Llywodraethu - Creu grŵp llywio newydd (Grŵp Llywio Trawsbynciol a Thrawsnewid Sefydliadol) a Bwrdd Strategaeth newydd (Bwrdd Strategaeth Adfer, Ail-lunio a Chyllideb) – cytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer y ddau
- Roedd cerrig milltir a therfynau amser perchennog wedi'u sefydlu ar gyfer pob ffrwd waith
- Symud ymlaen a byw gyda COVID-19 – sicrhau parodrwydd ar gyfer y byd newydd
- Byddai'r rhaglen ail-lunio/trawsnewid yn dechrau yn 2022
- Mae Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe wedi'i gymeradwyo
- Roedd Rhaglen Gyfalaf Safonau Ansawdd Tai Cymru a Chydymffurfiaeth wedi'u hadrodd i'r cyngor
- Lluniwyd dogfen ar weithio gartref yn ystod COVID-19
- Cynhaliwyd arolwg staff ar weithio gartref
- Anfonwyd nodyn briffio at reolwyr i helpu i gefnogi staff
- Cwblhawyd cynllun amlinellol ar gyfer Strategaeth Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad ac roedd y gwaith yn mynd rhagddo
- Roedd y Polisi Gweithio'n Ystwyth yn mynd rhagddo
- Roedd dangosfyrddau ac adroddiadau ar waith ac yn cael eu hadrodd i'r grŵp Llywio a'r Bwrdd newydd
- Perfformiad - roedd 128 o gamau gweithredu yn cael eu prosesu ar hyn o bryd drwy
- Gyllideb – ailffocysu'r cynllun ariannol tymor canolig

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Iechyd Meddwl Staff – argaeledd seicolegwyr i gefnogi staff
- Sut olwg fydd ar amgylchedd y swyddfa yn y dyfodol – trafodaeth ar ardaloedd rhannu desgiau a swyddfeydd cynllun agored
- Agor Swyddfeydd Tai Rhanbarthol
- Gwahanol anghenion staff – Nid yw un ffordd o weithio yn addas i bawb
- Dysgu o gamgymeriadau a wnaed
- Cwmpas y Pwyllgor – meysydd lle gall y Pwyllgor ychwanegu gwerth

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 29 Cronfa Gadernid.

Nid oedd yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, a byddai'n bresennol yn y cyfarfod nesaf i drafod y Gronfa Cadernid.

## 30 Cynllun Gwaith 2020/21.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2020/21.

Byddai'r Cadeirydd yn trefnu i gyfarfod â'r Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata ynghylch Cydgynhyrchu a byddai'n cyfarfod â'r Cynghorydd Alyson Pugh, Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau, ynghylch Cyflogadwyedd

Aildrefnu'r Gronfa Cadernid ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Byddai gweithdy ar y Cynllun Adfer yn cael ei sefydlu unwaith y byddai adroddiad diweddaru ysgrifenedig pellach ar gael.

**Penderfynwyd** diweddaru'r Cynllun Gwaith yn unol â hynny.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50 pm

**Cadeirydd**